**Llais y Plentyn**

*Gwisgo lan fel cymeriadau o'r straeon e.e. *Y Tri Mochyn Bach, Y Blaidd.*

*Darllen stori 'Sinderela'.*

**Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu**

- Cyfarchion e.e *Sut wyt ti? Bore da! Prynhawn da!*
- Cyfathrebu, trwy arbrofi a gwneud marciau, gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau.
- Gwrando ar, sgwrsio, ac ymateb i straeon yn ymwneud â'r thema e.e. *'Elenbenfelen', 'Y Tri Mochyn Bach', 'Yr Hugan Fach Goch' a'r 'Iâr Fach Goch'.*
- Chwarae rôl prif ddigwyddiadau'r straeon uchod e.e. *gan ddefnyddio pypedau.*
- Chwarae rôl yn y tŷ bach twt.
- Chwarae gêmau gwrando a chanolbwyntio.
- Ymarfer adnabod ac ysgrifennu enw.
- Gofalu am, a thrafod helyntion 'Tedi Twt' a 'Tedi Teg'.

**Y Celfyddydau Mynegiannol**



- Creu darluniau gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau e.e *paent, pasteli olew a chreonau.*
- Defnyddio amrywiaeth o adnoddau i greu gludwaith.
- Defnyddio offer jync i greu modelau e.e. *tai y Tri Mochyn Bach.*
- Canu ystod o ganeuon a hwiangerddi.
- Canu, a symud, i ganeuon yn ymwneud â'r thema.

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**



- Darparu cyfleoedd i adeiladu modelau gydag amrywiaeth o offer adeiladu e.e. *Lego a Mobilo.*
- Adeiladu gydag amrywiaeth o ddeunyddiau e.e. *pren, gwellt, briciau.*
- Coginio, paratoi a blasu bwydydd yn seiliedig ar straeon penodol e.e. *uwd–Stori Elenbenfelen; bara–Stori Yr Iâr Fach Goch'.*

# Y Meithrin 'Straeon Traddodiadol'



**Mathemateg a Rhifedd**

- Adnabod, enwi, atgyfnerthu, trefnu a ffurfio rhifau 1-5 (a throsodd).
- Cyfatebu rhifau â gwrthrychau.
- Dysgu geirfa mathemategol e.e. *bach a mawr, tal a byr.*
- Adnabod ac enwi siapau 2D.
- Ailadrodd patrwm gyda gleiniau, a phrintio.
- Ymwybyddiaeth o rannau amrywiol o'r corff e.e *un pen, dwy glust, deg bys.*

**Iechyd a Lles**



- Mynegi teimladau e.e. *hapus, trist.*
- Annog ymddygiad priodol, a dangos parch tuag at eiddo, a phobl eraill o'n cwmpas.
- Datblygu sgiliau cymryd tro, gwrando, gweithio fel rhan o dîm a chydweithio.
- Ymarfer dal, a defnyddio, brws paent, creon trwchus, pensil, a siswrn.
- Dysgu gwahanol ffyrdd o deithio a neidio.
- Meithrin sgiliau pêl e.e. *taflu, cicio a rolio.*
- Darparu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau annibynnol e.e. *gwisgo côt/esgidiau; cau'r botymau/zip.*

**Dyniaethau**



- Trafod nodweddion y Gaeaf a'r Gwanwyn.
- Darllen a thrafod straeon o'r Beibl.
- Dathlu Dydd Gŵyl Dewi.
- Dysgu am stori a thraddodiadau'r Pasg.